

---

## *Polisi Trin Arian Parod*

---

**Pwrpas:** Sicrhau bod pob arian parod yn cael ei drin yn ddiogel ac yn dryloyw, yn unol ag arferion da ar gyfer CRhA sy'n gweithredu fel elusen.

### 1. TRIN ARIAN PAROD MEWN DIGWYDDIADAU

I gadw pethau'n glir ac yn atebol:

#### 1.1. YN YSTOD Y DIGWYDDIAD

- Yn ddelfrydol, dylai dau oedolyn fod yn bresennol wrth drin neu gyfrif arian parod.
- Ni ddylid gadael arian parod heb oruchwyliaeth.

#### 1.2. CYFRIF ARIAN PAROD

- Dylid cyfrif arian parod ar yr un diwrnod lle bo modd.
- Dylai dau oedolyn gyfrif gyda'i gilydd a chytuno ar y cyfanswm.
- Dylid cofnodi'r cyfanswm ar unwaith.

#### 1.3. STORIO A BANCIO ARIAN PAROD

- Dylid cadw arian parod yn ddiogel yn sêff yr ysgol nes y gellir ei fancio.
- Dylid bancio'r arian cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn ddelfrydol o fewn ychydig ddyddiau.
- Dylai'r Trysorydd gofnodi'r incwm fel rhan o gofnodion ariannol y CRhA.

### 2. TRYLODER ARIANNOL

- Mae pob incwm yn cael ei gofnodi yng nghyfrifon y CRhA.
- Caiff cofnodion eu hadolygu mewn cyfarfodydd y pwyllgor.
- Rhennir crynodeb yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB)
- Mae hyn yn cefnogi llywodraethu da a'n cyfrifoldeb fel elusen.

### 3. ADOLGU'R POLISI HWN

Dylid adolygu'r polisi hwn yn flynyddol neu pan fydd gweithdrefnau neu statws elusennol y CRhA yn newid.



#### 4. RHEOLAETH Y POLISI

<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Manylion</b>
<b>1.0</b>	15 Mai 2026	Mabwysiadu'r polisi